



Cylchlythyr

Hydref 2016

Annwyl Aelod Panel,



Croeso i Gylchlythyr Involve Newport....

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu adborth ar rai o'r pynciau yr ymgynghorwyd arnynt yn ystod Arolygon Panel **Gaeaf** a **Gwanwyn** 2016, yn crynhoi 'beth ddywedoch chi wrthym ni' a 'beth wnaethom ni'. Darllenwch i gael mwy o wybodaeth!



Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni... ...Canfyddiad o Gasnewydd

Mae canfyddiad y cyhoedd o Gasnewydd yn gwella ac, ers mis Ebrill 2013, mae nifer y bobl sy'n dweud bod Casnewydd yn dod yn lle gwell i fyw wedi cynyddu dros 40 y cant, o 24.8 y cant i 65.48 y cant (hyd at fis Gorffennaf 2016). Yn seiliedig ar yr un cyfnod amser, mae nifer y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n falch eu bod nhw'n dod o Gasnewydd wedi cynyddu o 33.20 y cant i 46.96 y cant, a dywedodd 55.69 y cant bod y ddinas yn lle da i fyw.

Mae'r cwestiynau canfyddiad hyn yn parhau i gael eu gofyn ddwywaith y flwyddyn, ac yn caniatáu i ni gael cipolwg ar sut mae trigolion yn teimlo am eu dinas ac a oes gwelliannau'n cael eu gwneud.

Efallai eich bod chi hefyd yn ymwybodol o'r ymgyrch a lanswyd yn ddiweddar gan South Wales Argus i amlygu a hyrwyddo'r gorau o Gasnewydd. Nod yr ymgyrch yw bod yn gadarnhaol am y ddinas ac esbonio pam mae'n lle gwych i fyw, gweithio a gwneud busnes, gan gynnwys digwyddiadau proffil uchel, adfywio a thrawsnewid canol y ddinas, cyflogwyr mawr yn dod i'r ddinas, llwyddiannau chwaraeon, cyflawniadau addysg, a llawer mwy.

Mae'r is-bennawd 'Cefnogi Casnewydd' yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r ymgyrch, ac mae nifer o sefydliadau yn y ddinas eisoes wedi dangos eu cefnogaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r hashnod #cefnogicasnewydd a thrwy fathau eraill o gyfryngau a hyrwyddo.

Ailgylchwch dros Gasnewydd – pan fyddwch wedi gorffen fy narllen, rhwch fi yn eich blwch glas.

Beth ddywedoch chi wrthym ni...

... Adolygu Newport Matters

Gofynnem rai cwestiynau i'r panel dinasyddion yn gynharach eleni am Newport Matters. Pethau fel pa mor ddefnyddiol ydyw o ran rhoi gwybodaeth am ddinas Casnewydd, a gofynnem am awgrymiadau ar sut i'w wella.

Roedd yr ymateb i'r arolwg hwn yn ardderchog, a chawsom adborth a syniadau defnyddiol iawn gan y cyfranogwyr.

Roedd yn wych darganfod bod 76% o bobl yn darllen Newport Matters yn rheolaidd i gael newyddion cyffredinol, newyddion am ddinas Casnewydd a Chyngor Dinas Casnewydd.

O ran gwelliannau, roedd y ddau gais canlynol ar frig eich rhestr:

- **Mwy o wybodaeth gymunedol leol**
- **Mwy o wybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor**

Beth wnaethom ni...

Mae'r adborth hwn yn ddefnyddiol iawn ac mae wedi cael ei roi i'r tîm sy'n cyhoeddi Newport Matters chwe gwaith y flwyddyn.

Maent wedi cytuno i edrych ar fwy o straeon newyddion cymunedol, gan ganolbwyntio fwy ar bobl leol. Mae hyn eisoes wedi dechrau digwydd ac, yn ddiweddar, cyhoeddodd y papur stori am grŵp o bobl ifanc sydd wedi dod at ei gilydd i gael effaith gadarnhaol ar eu cymuned.

Mae'r papur hefyd yn siarad â darparwyr gwasanaethau eraill mewn cymunedau ledled y ddinas, ac yn cynnig rhannu newyddion da sefydliadau fel Cartrefi a Phobl Dinas Casnewydd.

Mae'r papur hefyd yn ymroi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion ar wasanaethau'r cyngor. Mae'n siarad yn rheolaidd am bethau fel ailgylchu a chyflwyno'r cynllun bagiau coch newydd. Bob blwyddyn, mae'n ceisio esbonio sut mae'r cyngor yn gweithio a sut caiff ei ariannu, pryd y mae'n rhaid iddo adolygu ei gyllideb a'r arbedion sydd angen eu gwneud.

Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni.. ..Casnewydd Fyw

Defnyddiom yr ymchwil i asesu'r ymwybyddiaeth bresennol o'r brand cyn cynnal ymchwil blwyddyn o hyd i wella ein hymwybyddiaeth brand. Rydym eisiau ailbrofi ym mis Ebrill 2017 i weld a wnaeth yr ymgyrch weithio a gwella ein hystadegau ymwybyddiaeth brand. Roedd eich adborth / arolwg yn hanfodol i ffurfio rhan o'r broses ymchwil, a oedd hefyd yn cynnwys cyfweiliadau cyhoeddus wyneb yn wyneb ac arolygon i'n cwsmeriaid presennol a gynhaliwyd hefyd.

Beth ddywedoch chi wrthym ni...

... Diogelwch yng Nghasnewydd

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r arolwg diwethaf (Gorffennaf 2016) yn parhau i gytuno bod yr heddlu a'r cyngor yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â throseddu / ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal (dros 45%), ond roedd wedi lleihau. Roedd ychydig dros 27% ohonynt o'r farn nad oeddent yn mynd i'r afael â phroblemau diogelwch lleol, a oedd wedi cynyddu ers y tro diwethaf.

Roedd aelodau'r Panel yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, ni waeth pa amser o'r dydd oedd hi. Yng nghanol y ddinas, roedd mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd (77%) nag yn y nos (38%). Ac roedd eu barn am yr heddlu yn eu hardal leol yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'r datganiadau, a oedd yn amrywio o dros 82% (trin â pharch) i lai na 49% (ymdrin â phethau o bwys).

Beth wnaethom ni...

Bydd eich adborth yn parhau i gael ei ddefnyddio i ennill barn y cyhoedd am ddiogelwch yng Nghasnewydd ar gyfer Heddlu Gwent, ac i gynorthwyo'r gwaith o dan y thema Cymunedau Diogel a Chydlynol o fewn Cynllun Integredig Sengl Casnewydd yn Un. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn ategu'r adborth a gasglwyd trwy'r arolwg Eich Llais, a gynhaliwyd gan Heddlu Gwent.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni / Beth wnaethom ni...
...Siaradwch am Iechyd, Mae Eich Llais o Bwys**

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a wnaeth roi o'u hamser i gwblhau ein Harolwg byr ar y GIG, fel rhan o Arolwg Panel Dinasyddion y Gaeaf - a diolch yn fawr iawn i'r 81 o bobl a gofrestrodd ar gyfer ein Rhwydwaith y Bobl.

Rydym wedi edrych ar yr ymatebion ac, yn seiliedig ar beth mae pobl Casnewydd wedi dweud wrthym, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar 4 prif faes dros y misoedd nesaf, sef:

- Targedu pobl iau e.e. trwy fforymau ieuencid, i ddarganfod beth sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw ynghylch eu GIG lleol.
- Trwy ein gwaith ymgysylltu, a thrwy weithio gyda'n hadran gyfathrebu, byddwn yn hyrwyddo'r Ymgyrch Dewis Doeth ymhellach, sy'n darparu dewisiadau ar gyfer trin afiechydon nad ydynt yn argyfwng.
- Darparu mwy o wybodaeth am Galw Iechyd Cymru (Ffôn: 0845 46 47) i sicrhau bod pobl yn gyfan gwbl ymwybodol o'r gwasanaethau a'r sicrwydd y gallant ei ddarparu, heb angen gweld meddyg.

A wnewch chi hyrwyddo ein Rhwydwaith y Bobl ac annog pobl i'n dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall unrhyw un ymuno â'r rhwydwaith a byddwn yn anfon gwybodaeth ar ddatblygiadau iechyd lleol allweddol mewn negeseuon e-bost, neu drwy'r post os byddai'n well gennych, a chewch eich gwahodd i fynychu digwyddiadau'r Bwrdd Iechyd o dro i dro – anfonwch neges e-bost at engagement.abb@wales.nhs.uk neu ffoniwch (01633) 435908.

Beth ddywedoch chi wrthym ni...

... Mynediad at Wasanaethau

Cyflwynwyd llawer o safbwyntiau ynghylch cyrchu gwasanaethau, a dyma rai o'r pwyntiau a godwyd:

- Mae gan y rhan fwyaf ohonoch fynediad at y rhyngwrwyd ac mae'r rhan fwyaf ohonoch yn defnyddio'r rhyngwrwyd i gyrchu gwasanaethau a gwybodaeth, gan gynnwys Gwasanaethau'r Cyngor.
- Mae'n well gan oddeutu hanner ohonoch ddefnyddio'r rhyngwrwyd i gyrchu Gwasanaethau'r Cyngor, ond mae'n well gan yr hanner arall ddefnyddio dulliau eraill i gysylltu â ni e.e. yn bersonol neu dros y ffôn.
- Pan wnaethom ofyn am y mathau gwahanol o wasanaethau, dywedoch wrthym fod yn well gennych ddefnyddio dulliau gwahanol, gan ddibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Dywedoch wrthym fod llawer o resymau gwahanol pam nad oeddech yn hoffi defnyddio technoleg i adrodd am, gwneud cais am, neu dalu am wasanaethau ar-lein, gan gynnwys diffyg hyder, problemau hygrychedd, ddim yn siŵr sut i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein a bod yn well gennych siarad ag unigolyn.

Beth wnaethom ni...

Mewn ymateb i'ch adborth, gweithredwyd y camau canlynol:

- Cynyddu'r cymorth a gynigir yn yr Orsaf Wybodaeth, fel y gellir dangos i fwy o gwsmeriaid sut i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein ar gyfrifiaduron y mae gan y cyhoedd fynediad atynt.
- Darparu mwy o gymorth dros y ffôn i helpu cwsmeriaid ddefnyddio'r opsiwn talu awtomatig.
- Uwchraddio opsiynau hygrychedd safle rhyngwrwyd y Cyngor. Rhoddwyd arddangosiadau i staff y Gwasanaethau Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Cwsmeriaid, er mwyn iddyn nhw allu helpu cwsmeriaid i addasu'r wefan i fodloni eu gofynion personol eu hunain. Mae cyfathrebiadau a hyfforddiant pellach wedi cael eu trefnu i hyrwyddo'r offeryn hwn ar draws y Cyngor a gyda chwsmeriaid.
- Newid y negeseuon awtomatig ar rif 656656 y Cyngor i helpu cwsmeriaid gyrraedd y gwasanaeth awtomatig neu'r unigolyn cywir i adrodd am, gwneud cais am, neu dalu am wasanaeth.

Diolch!!!

Diolch yn fawr iawn i bawb a gwblhaodd Arolygon y Gaeaf a'r Gwanwyn. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr. Dyma'r cyfraddau ymateb terfynol ar gyfer y ddau: Gaeaf (42%, 301 o ymatebion); Hydref (45%, 292 o ymatebion).

Cysylltu â ni

E-bost: one.newport@newport.gov.uk neu Ffôn: (01633) 656 656

Gwefan: www.onenewportlsb.newport.gov.uk neu dilynwch ni ar Twitter

[@OneNewport](https://twitter.com/OneNewport).